



Helen Paterson
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
The Guildhall
Wrecsam,
LL11 1AY

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

10 Awst 2015

Annwyl Ms Paterson

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am roi ymateb terfynol i'm Hanghenion Gweithredu, sef ymateb yr wyf wedi cael cyfle i'w ddadansoddi bellach.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae'n glir bod eich ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n manylu'n glir ar gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

Rwy'n arbennig o falch bod eich sefydliad wedi defnyddio'r adborth adeiladol a gynigiais yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn gwella'ch ymateb, ac mae'ch holl ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu wedi'u dadansoddi bellach fel ymatebion 'derbyniol'. Rwy'n croesawu'r ffaith bod datganiad sefyllfa wedi'i gynnwys ochr yn ochr â' chynllun gweithredu, ac mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd mewn rhai o'r Anghenion Gweithredu.

Mae'ch sefydliad wedi cynnig mynd ati i ddatblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau. Er enghraifft, rydych chi'n gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu modiwl hyfforddi 'arwain trwy annog' i reolwyr cartrefi gofal (Angen Gweithredu 3.2).

Gan hynny, rwy'n fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'm Hanghenion Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r newid angenrheidiol. Serch hynny, byddwn i hefyd yn disgwyl eich gweld yn datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer adolygu a chlориannu er mwyn rhoi sicrwydd ar lefel uchel yn eich sefydliad y bydd y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae dadansoddiad manwl wedi'i atodi o'r wybodaeth ychwanegol a roesoch mewn ymateb i'm cais.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst.

Dwy ddim yn bwriadu gofyn am ddiweddariad manwl am yr holl gamau sydd gennych ar y gweill, oherwydd lefel y sicrwydd a'r ymrwymiad rydych chi wedi'u dangos wrth sicrhau'r canlyniadau hyn. Gan hynny, rwy'n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau hyn wedi'u cyflawni'n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal (bod eich camau chi wedi'u cwblhau). Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a'r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â'r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn rhoi disgrifiad o'r darparwyr a'r gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae hefyd yn rhoi manylion nifer o gamau y mae wedi ymrwymo i'w cymryd er mwyn gwella cyfle pobl hŷn i gael gafael ar eiriolaeth.

Er enghraifft, mae'r Awdurdod Lleol yn dweud bod eiriolaeth wedi'i defnyddio i helpu pobl hŷn pan aeth cartref gofal o dan drefn Pryderon Cynyddol a hefyd fel rhan o brosesau diogelu. Ar ben hynny, mae manyleb wasanaeth ranbarthol newydd ynglŷn â chartrefi gofal sy'n darparu gofal i bobl sy'n byw â dementia yn gofyn iddyn nhw eu galluogi i gael mynediad i eiriolaeth annibynnol. Rwyf wedi cael siom nad yw'r ymateb yn cyfeirio'n bendant at gynnig eiriolaeth i bobl hŷn pan fydd arnyn nhw angen cymorth i ymadael â'r ysbyty. Er hynny, rwy'n disgwyl i hyn gael ei ddarparu ar gyfer pobl hŷn fel rhan o'r gwasanaeth eiriolaeth sy'n cael ei gomisiynu gan yr Awdurdod Lleol.

Codais bryder ynghylch ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol, sef nad oedd yn glir a oedd y ddarpariaeth eiriolaeth a ddisgrifiwyd ar gael i bob preswlydd, ni waeth sut roedd eu lleoliad yn cael ei ariannu. Gan hynny,

mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol wedi rhoi eglurhad, bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael i bawb sy'n byw mewn cartref gofal, ni waeth beth fo'r dull ariannu.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi dweud y bydd yn diwygio'i contractau gyda'r darparwyr eiriolaeth presennol i sicrhau bod darparu eiriolaeth mewn cartrefi gofal yn cael ei gynnwys yn bendant, ac y bydd yn defnyddio ymweliadau monitro contractau i sicrhau bod rheolwyr a staff cartrefi gofal yn gwbl ymwybodol bod eiriolaeth ar gael ac yn gwbl ymwybodol o'i diben. Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwmo i fonitro a chloriannu'r defnydd ar wasanaethau eiriolaeth ac i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn gwybodaeth am eiriolaeth, proses eiriolaeth a defnydd eiriolaeth drwy well hyfforddiant a thrwy'r fforwm i berchnogion cartrefi gofal. Dylai hyn sicrhau bod darpariaeth ac ansawdd yr eiriolaeth yn cael eu gwella ar draws yr ardal gyfan, bod gwendidau'n cael eu nodi a bod camau'n cael eu cymryd ynglŷn â'r gwendidau hynny.

Mae'n dda gen i weld bod gan y camau a amlinellwyd gan yr Awdurdod Lleol y potensial i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu sicrhau eu hawliau a sicrhau bod eu pryderon yn cael sylw pan fôn nhw mewn sefyllfaoedd lle y gallen nhw fod yn agored i niwed, a hynny drwy'r cyfle i gael eiriolaeth annibynnol. Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn neu dîm atebol. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 3.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn cynnwys nifer o gamau ac ymrwymadau a ddylai sicrhau bod yr holl staff mewn cartrefi gofal yn deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw â dementia.

Er enghraifft, mae'r Awdurdod Lleol yn dweud ei fod yn buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddi a datblygu a bod hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia ar gael i'r holl staff. Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwmo i fonitro'r presenoldeb mewn hyfforddiant, ac i adolygu anghenion hyfforddi'r sector er mwyn cymryd y camau angenrheidiol a chynnwys unrhyw newidiadau yng nghynllun datblygu'r gweithlu. Dylai hynny sicrhau bod materion fel presenoldeb isel neu welliannau mewn deunyddiau hyfforddi'n cael eu gweld a bod camau'n cael eu cymryd yn gyflym. Ar ben hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi gwybodaeth am fanyleb wasanaeth ranbarthol newydd ar gyfer cartrefi gofal sy'n darparu gofal i bobl sy'n yw â dementia ac mae'n disgrifio bod rhaid i aelodau'r staff ddilyn rhaglen ymsefydlu gynlluniedig sy'n cynnwys y dulliau a'r sgiliau y mae eu hangen er mwyn gofalu am bobl sy'n byw â dementia.

Er bod yr ymateb yn cydnabod nad oes hyfforddiant uwch mewn dementia wedi'i roi i reolwyr cartrefi gofal, mae'n dweud bod hyfforddiant dementia wedi'i nodi fel blaenoriaeth i reolwyr cartrefi gofal. Mae enghreifftiau wedi'u rhoi o'r modiwlau hyfforddiant sydd eisoes ar gael i reolwyr cartrefi gofal, ond rwy'n rhoi croeso arbennig i'r gwaith ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd y mae'r Awdurdod Lleol yn ei ddisgrifio i ddatblygu modiwl dementia newydd 'arwain drwy annog' i reolwyr cartrefi gofal. Pan fydd cynllun peilot wedi'i gynnal ac wedi'i gloriannu, rwy'n disgwyl i'r hyfforddiant hwn gael ei roi i bob rheolwr cartref gofal yn yr ardal.

Yn olaf, mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i gynnwys adolygu dogfennau goruchwylio ac arfarnu yn ei waith monitro contractau er mwyn sicrhau bod tystiolaeth o sgiliau a gwybodaeth mewn gofal dementia yn cael eu cofnodi a bod y sgiliau a'r wybodaeth yn cael eu cynnal.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn neu dîm atebol. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Terfynol - Derbyniol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Terfynol - Derbyniol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o

synhwyrâu

- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.